



# Papur Briffio - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Effaith COVID- 19 ar y sector gwirfoddol

## CYFLWYNIAD

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae mudiadau ar hyd a lled y wlad wedi gorfod ceisio ymdopi â chynnydd yn y galw am wasanaethau, ochr yn ochr yn aml â gostyngiad mewn incwm, wrth geisio addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio a manteisio i'r eithaf ar yr ymchwydd o ddiddordeb mewn gwirfoddoli.

Hydref diwethaf, dechreuodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Senedd ymchwiliad i'r effeithiau hyn. Derbyniodd dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan amrywiaeth o fudiadau'r sector gwirfoddol, gan gynnwys CGGC. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd [adroddiad](#) ar ei ganfyddiadau.

Mae'r papur briffio hwn yn amlygu dim ond rhai o brif ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Awgrymw'n eich bod yn darllen y ddogfen lawn er mwyn cael mwy o ddealltwriaeth.

Bydd CGGC yn monitro ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a'r argymhellion, ac unrhyw gamau gweithredu a fydd yn deillio o hyn.

## **YMATEB Y SECTOR I'R PANDEMIG**

Gwnaeth y Pwyllgor gydnabod gwaith pwyllgorau a grwpiau anffurfiol wrth ymateb mor gyflym i fynd i'r afael â'r angen lleol, a gwaith y sector wrth 'fynd yr ail filltir' i gynorthwyo unigolion a gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn nodi: 'Mae'n amlwg y byddai'r ymateb i'r pandemig wedi bod yn wannach o lawer pe na bai'r sector gwirfoddol naill ai heb ymateb, neu wedi cael ei atal rhag ymateb, yn y ffordd y gwnaeth.'

Mae'r adroddiad yn nodi tystiolaeth y sector gwirfoddol ar gyrff statudol a'r llywodraeth bob amser yn ymgysylltu ag ef ar ddechrau'r argyfwng. Noda y byddai gwneud hyn wedi sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod gwaith cydgysylltiedig yn digwydd yn effeithiol.

Mae'r diffyg mynediad at dechnoleg a/neu fand eang yn broblem hanfodol. Amlygodd yr adroddiad sylwadau CGGC pan ddywedodd 'nid yw'r byd digidol yn addas i bawb – yn wir, nid yw'r byd digidol yn addas o gwbl'.

Dangoswyd fod y rôl y gwnaeth y sector ei chwarae mewn rhannu negeseuon hanfodol â chymunedau a phobl yn 'amhrisiadwy'.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd â'r effeithiau negyddol ar gyllid ac incwm, yn ogystal â thystiolaeth sy'n nodi'r broblem o chwythu plwc a straen ar y sector, unigolion a chymunedau.

### **Argymhellion y Pwyllgor:**

Mae'r adroddiad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

- gweithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar rôl y sector mewn argyfyngau yn y dyfodol, gan gydnabod ei rôl hanfodol.
- rhannu arferion gorau o'r ymateb i'r pandemig.

- asesu i ba raddau y mae'r sector gwirfoddol wedi'i integreiddio i strwythurau cynllunio ar gyfer argyfwng ffurfiol ac anffurfiol a sut y gellir cryfhau partneriaethau.

Ychwanegodd y Pwyllgor ei fod yn pryderu ynghylch y prinder band eang i rai pobl, a allai adael y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn llai tebygol o gyrchu gwasanaethau digidol. Mae'n argymhell y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i sicrhau bod y Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Cymru yn adlewyrchu gwaith y sector a'r symud tuag at ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.

## **GWIRFODDOLI A'R PANDEMIG**

Gwnaeth y Pwyllgor gydnabod yr ymchwydd cadarnhaol mewn gwirfoddoli ffurfiol ac anffurfiol yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig. Nododd y problemau yr oedd hyn wedi'u hachosi o ran 'gorlethu'r' seilwaith, gan ei gwneud hi'n anodd sianelu gwirfoddolwyr yn gyflym.

Arweiniodd y cyfyngiadau symud at newid o wirfoddolwyr hŷn yn bennaf i bobl ifanc – a'r rheini'n wirfoddolwyr am y tro cyntaf yn aml. Nododd y Pwyllgor dystiolaeth y sector gan ddweud bod angen cymorth i sicrhau nad yw'r brwdfrydedd hwn yn gwanhau.

Roedd problemau o ran cydlynu gwirfoddolwyr yn arbennig o amlwg yn y GIG.

Gwnaeth yr ymchwydd mewn gwirfoddolwyr achosi problemau o ran diogelu a rheoli gwirfoddolwyr.

### **Argymhellion y pwyllgor:**

Argymhella'r adroddiad fod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- gweithio gyda'r sector i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall gwirfoddoli gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus a llesiant ar ôl COVID-19.

- datblygu rhaglen o rymuso cymunedau gyda'r sector gwirfoddol – gan gynnwys Cronfa Gyfoeth Gymunedol a deddfwriaeth i ddarparu mwy o allu i gymunedau gymryd rhan mewn gweithredu lleol.
- gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd i alluogi grwpiau cymunedol newydd i dderbyn cymorth a chynghor i gyflawni eu gwaith.

## **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH**

Mae'r adroddiad yn amlygu rhai enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth: er enghraifft, rhwng y Groes Goch Brydeinig, gwasanaeth Ambiwlans St John a Llywodraeth Cymru i gludo presgripsiynau, a'r strwythurau yng Ngogledd Cymru i ddod â holl bartneriaid craidd Is-grŵp Cymru Gydnerth Gogledd Cymru ynghyd.

Gwnaeth y pandemig 'gyflymu gwaith partneriaeth', ond darlun 'amrywiol a chymysg' a welwyd ledled Cymru, yn dibynnu ar ba mor effeithiol oedd y partneriaethau cyn y pandemig. Crëwyd tensiynau 'lle'r oedd pwysau cyllido neu gyfyngiadau o ran capasiti'.

Roedd y gwahaniaethau rhwng sut mae Byrddau Iechyd yn gweithredu yn heriol o ran rheoli sut oedd gwirfoddolwyr yn gweithio ar eu traws.

Cydnabu'r Pwyllgor fod cyd-gynhyrchu'n bwysig.

### **Argymhellion y Pwyllgor:**

Mae'r adroddiad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- adolygu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn ystod y pandemig, gan nodi arferion da y gellir eu hefelychu ac ystyried a oes angen cryfhau mecanweithiau ffurfiol i sicrhau bod cyd-gynhyrchu a gwaith partneriaeth ystyrllon rhwng cyrff a dinasyddion.

## CYLLID

Amlygodd yr adroddiad dystiolaeth a oedd yn dangos bod mudiadau a oedd wedi amrywio incwm wedi'u heffeithio'n waeth na'r rheini a oedd yn dibynnu ar grantiau.

Mudiadau canolig a mwy o faint a gafodd eu heffeithio fwyaf gan lai o gyllid ac incwm yn ystod y pandemig. Nid oedd mudiadau llai o faint yn dibynnu cymaint ar gyllid sylweddol.

Yn ôl tystiolaeth CGGC, amcangyfrifwyd y byddai elusennau ledled y DU yn colli 24% o gyfanswm eu hincwm am 2020/21 – yng Nghymru, bydd hyn yn oddeutu £620 miliwn.

Mae cyllidwyr yn awyddus i estyn allan i fudiadau a grwpiau newydd. Dywedodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol eu bod wedi cefnogi 'nifer sylweddol o fudiadau newydd'.

Mae'r adroddiad yn cydnabod y prif alwad i ehangu hyblygrwydd y cyllid am gyfnod mwy hirdymor, ac y bydd y dyfodol yn ansicr iawn i'r sector. Bydd yr ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi'n 'bwysicach fyth' i fesur gwerth cymdeithasol buddsoddiad yn y sector. Amlygir gwefan [Gwerth Cymdeithasol Cymru](#).

Noda'r adroddiad dystiolaeth fod darparu cyllid craidd yn hanfodol i helpu cynaliadwyedd y sector.

## ARGYMHELLION Y PWYLLGOR:

Mae'r adrodd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gan adeiladu ar Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i gynyddu gwydnwch y sector a'i allu i chwarae ei ran wrth roi cymorth i gymunedau yn ystod yr adferiad.
- gweithio gyda Fforwm Cyllidwyr Cymru i helpu cyllidwyr i barhau i rannu gwybodaeth a chydweithio ar ôl y pandemig

- lle bo hynny'n briodol, archwilio ac ymchwilio i ganiatáu i gyllid heb ei wario gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf
- ystyried yr heriau sy'n wynebu mudiadau BAME wrth ystyried cyllid ar gyfer y sector, gan gynnwys unrhyw rwystrau ychwanegol y gallai'r grwpiau hyn eu hwynebu wrth gael cyllid.
- ystyried canfyddiadau adroddiad [Yn Uchel ac yn Groch](#) Sefydliad Cymunedol Cymru ac annog cyllidwyr i gefnogi costau craidd.
- siarad â Llywodraeth y DU ynghylch effaith rhwymedigaethau rhyngwladol mewn perthynas â rheolau Cymorth Gwladwriaethol ar roi cymorth i'r sector elusennol.
- gwneud gwaith ymchwil i asesu gwerth cymdeithasol ei buddsoddiad yn y sector.

## **ADFER O'R PANDEMIG**

Mae'r adroddiad yn nodi 'bydd arbenigedd y sector wrth gefnogi gwaith ataliol yn hollbwysig a rhaid ei harneisio'n effeithiol' wrth i ni adfer o'r argyfwng.

Mae'n nodi sylwadau CGGC y 'bydd annog newid parhaus mewn ymddygiadau a diwylliant i rannu pŵer yn well' yn helpu â gwydnwch y sector.

Bydd mynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig yn un o'r prif flaenoriaethau ar ôl y gwaith adfer.

### **Argymhellion y pwyllgor:**

Mae'r adroddiad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- gweithio gyda'r sector i nodi meysydd lle gall y sector gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus, gwydnwch cymunedol a llesiant.
- buddsoddi yn rhaglenni'r sector sy'n cefnogi'r adferiad.
- sicrhau bod y sector cyhoeddus yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol wrth lunio polisiau a darparu gwasanaethau.

- adrodd ar effeithiolrwydd y strategaeth Cysylltu Cymunedau wrth fynd i'r afael ag unigrwydd a themlo'n ynysig o fewn 12 mis.
- edrych ar sut y gall technoleg newydd fynd i'r afael ag unigrwydd a themlo'n ynysig.

**Cyhoeddwyd gan CGGC**

**Chwefror 2021**